

Annwyl gydweithwyr IMEMS,

Mae rhifyn y gwanwyn y newyddlen hon yn cynnwys newyddion da, dau ddyddiad pwysig i'ch dyddiadur a chais am wybodaeth.

1. Yn gyntaf, y newyddion da! Rwy'n falch o roi gwybod i chi bod bwrdd partneriaeth ein dwy brifysgol wedi rhoi **cyllid** i'n sefydliad **am y flwyddyn academiaidd nesaf**. Gwnaed hyn i gydnabod y llwyddiant mae IMEMS wedi ei gael hyd yma mewn cymaint o ffyrdd, yn cynnwys llawer iawn o gydweithio sylfaenol ar ymchwil a seminarau yn ein gwahanol feysydd, amrywiaeth o brojectau arloesol, llwyddiant wrth ennill grantiau a datblygu cysylltiadau gyda phartneriaid allanol, yn aml yn rhyngwladol. Llongyfarchiadau i bawb!
2. Mae'r gyfres seminar ar y rhwydwaith fideo yn cael seibiant dros wyliau'r Pasg, ond bydd yn aildechrau **brynhawn Mawrth 13 Ebrill** am 5 o'r gloch gyda phapur gan yr Athro Marion Wynne-Davies (Prifysgol Surrey) o'r enw "With such a Wife 'tis heaven on earth to dwell: Memorialising Early Modern Englishwomen". Fel bob amser, cofiwch roi'r manylion am y seminar ac am unrhyw ddigwyddiadau IMEMS eraill sy'n berthnasol i'ch myfyrwyr ôl-radd ac ysgolheigion eraill a allai fod â diddordeb.
3. Yr ail ddyddiad IMEMS i'ch dyddiadur yw'r **cyfarfod blynyddol ddydd Mercher 26 Mai** yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth rhwng 10.30 a 4pm. Bydd y siaradwyr yn cynnwys llyfrgellwyr arbenigol o'r Llyfrgell Genedlaethol fydd yn cyflwyno casgliadau o ddiddordeb i ymchwilwyr IMEMS, yn ogystal â chydweithwyr o amrywiaeth o ddisgyblaethau yn rhoi sgysiau byr am eu gwaith ymchwil newydd. Bydd hefyd cyfle i chi gwrdd ag ymchwilwyr eraill sy'n gweithio yn eich maes. Byddwn yn anfon y rhaglen lawn atoch ar ôl y Pasg, ond yn y cyfamser, cofiwch neilltuo'r dyddiad.
4. Yn olaf, a fyddech cystal â gadael i Gary Reid wybod am unrhyw weithgareddau gennych sy'n arwain at rannu eich ymchwil gyda chynulleidfa nad yw'n gynulleidfa academiaidd. Rydym i gyd wedi arfer cadw cofnod o bapurau cynhadledd neu ddarlithoedd gwadd prifysgolion eraill, ond mae Gary wrthi'n llunio rhestr o **weithgareddau ymchwil mwy cyhoeddus** gan aelodau IMEMS - er enghraifft, siarad mewn **gŵyl lenyddol** neu **wyl gerdd** am eich ymchwil, addysg u mewn ysgol undydd ar gyfer y cyhoedd neu roi darlith **wgrallanol** megis cangen leol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Anfonwch wybodaeth gryno am unrhyw weithgarwch "estyn allan" o'r fath, rhai o'r gorffennol neu rai sydd ar y gweill, at Gary (gar@aber.ac.uk).

Diolch yn fawr.

Gyda dymuniadau gorau ar gyfer gwyliau'r Pasg,
Helen (Wilcox)

O.N. Ymddiheurwn am ganslo'r gweithdy ar gyllid ymchwil ddydd Mawrth 23 Mawrth. Roedd yn digwydd yr un pryd â nifer o weithgareddau eraill ac roedd yn anghyfleus i lawer o aelodau IMEMS, felly caiff ei gynnal rhywbryd ar ôl yr haf pan fydd mwy ohonoch yn gallu dod, gobeithio.